Cyfarfod Fforwm Tenantiaid a Phreswylwyr Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru
Tŷ Canol, Y Drenewydd
7 Hydref 2011

Yn bresennol:

Aelodau'r Fforwm:

Bryan Owen (Cadeirydd)	Sue Dixon	Jean Christopher
Brian Spencer	Brian Christopher	Olivia Davies
Ann Burton	Heather Jones	Phil Taylor
Kim Taylor	John Field	Christine Field
Debbie Crewe		

Staff ac Aelodau Brwdd

Jane Jones (Rheolydd CASS	Robert Dearden (Rheolydd Asedau)
Maureen Woosnam (Cydlynydd G&Ph)	Karl Abel (Rheolydd Cyllid
Phil Williams (Rheolydd G&Ph)	Hannah Jones (Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid)
Shane Perkins (Prif Weithredydd)	Charles Brotherton (Cyfarwyddydd
Nick Hoskins (Cadeirydd Bwrdd Rheoli)	Gwasanaethau Corfforaethol)

Ymddiheuriadau:

Mike Williams

1. **Materion Tenantiaid**

2. **Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol a gwahodd pawb i'w cyflwyno eu hunain. Penderfynwyd hefyd yr hoffai tenantiaid ddechrau cyfarfodydd yn y dyfodol yn gynharach am 9.45am i'w galluogi i gael trafodaeth 45 munud ar ben eu hunain heb aelodau staff yn bresennol.

3. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Aethpwyd drwy gofnodion y cyfarfod diwethaf er cywirdeb. Nodwyd y gwelliannau dilynol:

- **Tudalen 3, Rhif 5.** Bu trafodaeth am gadw cŵn ar dennyn yn ardaloedd cymunol Pine Court ar bob amser a hefyd i unrhyw ymwelwyr gyda chŵn i wneud yr un fath. Dywedodd David Churm y byddai'n ysgrifennu at bob tenant yn eu hatgoffa o hyn ac iddynt i'w roi i'w hymwelwyr, byddai hefyd yn cynnwys nodyn yn y llythyr yn atgoffa preswylwyr ac ymwelwyr i lanhau ar ôl eu cŵn.

- **Tudalen 5, Rhif 6. Paragraff ar ôl y pwyntiau bwled.** Er bod Ann wedi diolch i Huw a hefyd wedi diolch i Jo am weithredu'n brydlon, nid oedd wedi

dweud fod y garddwyr yn gwneud gwaith da - ond y gweithredwyd mor gyflym ar ei neges.

- **Tudalen 7, Rhif 6, paragraff olaf.** Yng nghyfarfod diweddar y Fforwm, bu trafodaeth am gwtogi oriau glanhawyr ac roedd y Gymdeithas wedi penderfynu gweld os oedd unrhyw waith arall y medrent ei wneud i osgoi hyn. Soniwyd bod Ann Lander, y person glanhau yn Pine Court, mewn gwirionedd wedi bod yn arddwr yno cyn iddi gael ei phlant, a bu hefyd yn arddwr yng Nghastell Powys. Os cytunai, efallai y gallai helpu os a phan fo angen.

4. Materion yn codi

Aethpwyd drwy'r ddalen ddiweddaraf materion yn codi a rhoddwyd y diweddariadau dilynol:

- Er bod erthygl yn mynd yn y cylchlythyr am sgamiau, gofynnodd y Cadeirydd os gallai Hannah weld os gallai Graham Brown o Gyngor Sir Powys roi mwy o gyngor ar sgamiau. Gofynnodd Sue Dixon os gallai fod yn syniad da cael erthygl gan Age Concern ar gyfer cylchlythyr yn y dyfodol. Bydd Hannah yn edrych ar y ddau syniad yma.
- Ni chynhaliwyd cyfnod prawf o agor y swyddfa yn gynharach ar fore Llun. Ni fu'n bosibl gwneud hyn dros yr haf oherwydd gwyliau staff a salwch. Edrychir ar y mater yn yr ychydig wythnosau nesaf.
- Rhoddodd Aidan ddiweddariad ar y mater galw oer. Mae'r Gymdeithas yn gweithio at sefydlu system apwyntiadau yn gysylltiedig gyda'i chofnodion systemau - gweithredid hyn drwy system TG newydd. Un posibilrwydd sy'n cael ei drafod yw y byddai cosb ariannol os yw contractwyr yn methu cyflawni apwyntiadau. Cynhelir cyfarfod am y system apwyntiadau ar ôl cyfarfod y Fforwm mewn cysylltiad gyda thenantiaid.

5. Hannah Jones (Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid)

a) Strategaeth Leol Cyfranogiad Tenantiaid (LTPS)

Rhoddodd Hannah gyflwyniad ar statws presennol Strategaeth y Gymdeithas. Mae'n ofynnol i bob landlord cymdeithasol gael Strategaeth ac mae'n ddogfen sy'n dangos sefyllfa ddiweddaraf y landlord ar gyfranogiad tenantiaid a sut mae'n bwriadu adeiladu ar hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Gymdeithas ailgyflwyno ei Strategaeth felly mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau ei bod yn adlewyrchu ymrwymiad y Gymdeithas i gyfranogiad tenantiaid. Hyd yma cynhaliwyd dau weithgor gyda thenantiaid. Mae holl aelodau'r Fforwm wedi gweld y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu, a bu Hannah, Jane a Christine Field hefyd yn bresennol mewn dosbarth meistr ar Strategaethau Lleol Cyfranogiad Tenantiaid a gyflwynwyd gan TPAS Cymru.

Daeth rhai argymhellion o'r dosbarth hwnnw y mae angen i Hannah eu cynnwys yn Strategaeth y Gymdeithas, sef:

- Gwneud yn sicr fod y gwahaniad yn gywir rhwng yr hyn a restrir fel "amcan", "cam gweithredu" a "chanlyniad" yn y Cynllun Gweithredu o fewn y Strategaeth.

- Yr argymhelliad bod y Gymdeithas yn mabwysiadu'r 4 amcan trosfwaol dilynol ar gyfer ei Strategaeth:

1. Gwella gwasanaethau
2. Gwneud landlordiaid yn atebol i denantiaid
3. Cynyddu sgiliau a hyder tenantiaid
4. Gwella ansawdd cymunedau

- I ysgrifennu ein strategaeth fel stori, fel ei fod yn esbonio ein sefyllfa bresennol, yr hyn mae angen i ni ddatblygu a sut yr awn o gwmpas hyn a blaenoriaethu.

b) Llawlyfr Tenantiaid

Roedd David Churm (Rheolydd Gwasanaethau Tai) yn methu bod yn bresennol yn y cyfarfod ond gofynnodd i Hannah roi diweddariad ar y Llawlyfr Tenantiaid. Roedd dau ddyfynbris pellach am fersiynau cylch rhwymo A4 o'r llawlyfr. Dangosodd Hannah hefyd sut y byddai tu blaen y llawlyfr yn edrych.

Cynhaliwyd trafodaeth p'un ai a ddymunai aelodau gael fersiwn A4 neu A5 o'r llawlyfrau. Awgrymodd Aidan y dylid cymryd pleidlais fel y medrir gwneud penderfyniad.

Roedd y mwyafrif eisiau rhwymwyr cylch A5 ar y pris rhataf. Bydd Hannah yn rhoi adborth i David.

c) Cyllideb Cyfranogiad Tenantiaid

Rhoddodd Hannah y gyllideb Cyfranogiad Tenantiaid ddiweddaraf i aelodau. Esboniodd fod llawer o arian yn dal i'w wario a gofynnodd sut hoffai aelodau i hynny gael ei wario. Os na werir y gyllideb yn y flwyddyn ariannol hon, nid yw'n mynd drosodd i'r flwyddyn nesaf, felly mae'n gwneud synnwyr i wario'r gyllideb a ddyrannwyd i gyfranogiad tenantiaid.

Awgrymodd y Cadeirydd gynnal cystadlaethau garddio a ffotograffau. Ychwanegodd hefyd mai dyma'r flwyddyn gyntaf i aelodau'r Fforwm gael mewnbwn i wariant y gyllideb ac felly erbyn y flwyddyn nesaf bydd ganddynt well syniad ar beth i'w wario.

Gofynnodd Hannah os oedd unrhyw hyfforddiant yr hoffai aelodau ei gael.

Ychwanegodd Nick mai un o brif flaenoriaethau'r Gymdeithas yw dod â thenantiaid i mewn a'u cael i gymryd rhan ac anogodd aelodau i ddefnyddio'r gyllideb er y fantais hon.

Awgrymodd Jean y byddai anfon cofnodion o gyfarfodydd blaenorol y Fforwm i bob tenant yn ffordd dda o adael i bobl wybod beth oedd yn digwydd mewn cyfarfodydd gyda golwg ar gael mwy o bobl i fynychu. Er y caiff yr holl gofnodion eu dodi ar

wefan y Gymdeithas, teimlwyd y byddai hyn yn syniad da gan nad oedd gan bawb fynediad i'r rhyngrwyd. Cytunwyd hefyd yr anfonid sawl copi o gofnodion blaenorol at bob tenant.

Atgoffwyd Hannah hefyd i roi eitem wybodaeth am y Fforwm yn y cylchlythyr yn sôn am lwyddiannau'r Fforwm.

6. Phil Williams (Rheolydd Gwybodaeth a Pherfformiad) a Maureen Woosnam (Cydlynydd Gwybodaeth a Pherfformiad) - Gweithdrefnau Cwynion ac Iawn)

Esboniodd Maureen Woosnam sut yr oedd gweithgor yn cynnwys tenantiaid, aelod o'r bwrdd a 2 aelod staff wedi adnewyddu'r gweithdrefnau cwynion ac iawn.

Roedd Maureen hefyd wedi ymgynghori gyda Grŵp 50 Canolbarth Cymru, pawb oedd wedi cwyno'n ddiweddar, yr holl staff ac aelodau bwrdd a gofyn iddynt i bwy y credent y dylid cyfeirio cwynion, aelod penodol o staff, cyfarwyddydd y maes gwybodaeth y gwneir y gŵyn amdano neu reolydd y gwasanaeth hwnnw. Dangosodd yr ymgynghoriad y credai'r rhan fwyaf o bobl mai rheolydd y gwasanaeth ddylai drin y gŵyn. Eglurodd Phil wedyn y golygai hyn y gallai rheolwyr ddirprwyo i aelodau eraill o staff yn eu tîm ond mae'r rheolydd fyddai'n bennaf gyfrifol ac yn rheoli'r gŵyn.

Dim ond tua 75-80 cwyn y flwyddyn a gaiff y Gymdeithas, sy'n gyfradd gwynion weddol isel. Yn awr dywedir wrth yr achwynydd pa reolydd fydd yn trin eu cwyn.

Dangosodd yr ymgynghoriad hefyd fod pobl eisiau i gwynion gael eu datrys yn gyflymach. Caiff cwyn ei chydnabod yn awr o fewn 2 ddiwrnod, gyda mwyafrif y cwynion yn cael eu datrys o fewn 7 diwrnod. Os nad yw hyn yn bosibl, cysylltir â'r achwynydd a dywedir wrthynt beth sy'n digwydd. Mae pob cwyn i gael eu datrys o fewn 21 diwrnod. Y prif bwyslais i ddod allan o'r ymgynghoriad oedd y dylid hysbysu'r achwynwyr beth oedd yn digwydd yr holl ffordd drwy'r broses.

Newid arall i'r weithdrefn gwynion fydd y ffordd y caiff cwynion am staff eu trin. Yn y gorffennol, y Prif Weithredydd fyddai wedi trin pob cwyn am aelodau staff ond yr adran Adnoddau Dynol fydd yn eu trin o hyn ymlaen.

Dosbarthwyd y polisïau drafft newydd ar gyfer cwynion ac iawn i'r rhai'n bresennol. Gofynnodd Debbie gwestiwn am adran 5 y polisi cwynion. Mae'r adran yn trin cwynion am fwy nag un corff. Gofynnodd sut y byddai'r Gymdeithas yn cadw at yr amserlen a osodwyd ar gyfer datrys cwynion lle mae cyrff heblaw'r Gymdeithas yn gysylltiedig, gan y gallent gymryd mwy i'w datrys. Esboniodd Phil Williams mai dyma fyddai'r sefyllfa arferol ac y byddai'n cymryd mwy os oedd amgylchiadau arbennig. Gofynnodd Sue os gellid ychwanegu hyn at y polisi, a chytunodd Phil.

Gofynnodd Jean os oedd gweithdrefnau cwynion ac iawndal eisoes ar waith. Cadarnhaodd Phil fod rhai ond y byddai'r polisïau a gweithdrefnau a adolygwyd yn eu disodli unwaith fod Bwrdd rheoli'r Gymdeithas wedi cytuno arnynt.

Symudodd y drafodaeth ymlaen wedyn i ganolbwyntio ar weithdrefnau iawndal. Esboniodd Phil y gellir hawlio iawndal ar unrhyw amser. Caiff iawndal ei ystyried bob amser lle bu cwyn ac y cadarnhawyd y gŵyn honno. Gofynnodd y Cadeirydd beth oedd yr uchafswm am iawndal. Esboniodd Phil mai'r uchafswm o £500 ac y byddai'n rhaid i hyn gael ei awdurdodi gan Charles Brotherton, Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol.

Gofynnodd Ann am ychwanegu rhifau ar y tudalennau a dyddiad i'r dogfennau a ddangoswyd. Roedd hefyd gonsensws y dylai'r ddwy ddogfen gael eu hanfon at bob tenant. Dywedodd Maureen Woosnam y byddent yn cael eu hanfon gyda'r cyfriflenni rhent blynyddol ac y byddent hefyd ar gael ar wefan y Gymdeithas.

7. **Robert Dearden (Rheolydd Asedau) – Diweddariad ar system apwyntiadau atgyweiriadau**

Rhoddodd Robert ddiweddariad cyflym ar gynnydd y system apwyntiadau yn dilyn sylwadau cynharach Aidan yn ystod y drafodaeth ar faterion yn codi.
Sefydlwyd gweithgor gydag aelodau tenant (Bryan Owen, Brian Christopher, Debbie Crewe a Phil Taylor) i edrych ar y system apwyntiadau.
Bu hefyd waith agos gyda'r contractwyr a fu'n gefnogol iawn ac wedi sylweddoli pwysigrwydd gosod system apwyntiadau. Mae pethau'n gwella. Roedd cyfarfod wedi'i drefnu ar ôl cyfarfod y Fforwm gyda'r tenantiaid a gwirfoddolwyr i siarad am atgyweiriadau.

8. **Shane Perkins (Prif Weithredydd) – Recriwtio Tenantiaid yn Aelodau Bwrdd.**

Dymunai Shane gynnal trafodaeth gyffredinol gydag aelodau'r Fforwm am eu syniadau ar sut i recriwtio tenantiaid i fod yn aelodau newydd o'r Bwrdd. Er bod 3 o'r 4 lle i denantiaid wedi'u llenwi yn y Bwrdd, daw pob un o'r 3 tenant o ardal Sir Drefaldwyn. Mae'r Bwrdd yn dymuno recriwtio o Dde Powys - Ceredigion, Sir Faesyfed a Sir Frycheiniog.

Gofynnodd y Cadeirydd os oedd cynnal cyfarfodydd Bwrdd am 5.30pm yn rheswm pam na allai pobl o bellach i ffwrdd fynychu a gofynnodd am gynnal y cyfarfodydd mewn gwahanol ardaloedd. Esboniodd Shane y cynhelid cyfarfodydd Bwrdd ar yr amser hwn fel nad oedd pobl sy'n gweithio yn cael eu rhwystro rhag ymuno â'r Bwrdd. Dywedodd Nick Hoskins, Cadeirydd y Bwrdd Rheoli, y cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd yn Aberystwyth ac y gwnaed hyn yn y gorffennol yn ogystal â chynnal cyfarfodydd yn Llandrindod. Pan drefnir cyfarfodydd mewn ardaloedd eraill, gwahoddwyd yr holl denantiaid o'r ardaloedd hynny i fynychu fel sylwedyddion.

Gofynnodd Sue os ystyriwyd cynadleddau fideo fel ffordd o oresgyn y mater teithio, a ymddangosai i fod y brif broblem. Credai Shane y gallai hyn fod yn opsiwn i'w ystyried ond mynegodd rai pryderon am gysylltiadau band eang.

Dywedodd Nick nad yw rôl aelod bwrdd yn gweddu pawb. Mae'n gyfrifoldeb enfawr a chaiff ei reoleiddio'n ddifrifol. Mae'n galw am lefel uchel o ymrwymiad gan y gall

cyfarfodydd fod yn faith. Mae'r bwrdd yn ceisio canfod pobl gyda'r profiad a'r disgyblaethau cywir yn eu cefndir i gyfrannu'n dda mewn cyfarfodydd. Ychwanegodd Shane y gallai gofyn i swyddogion sy'n ymweld gysylltu ag unigolion os credent fod yn dda yn y swydd rôl fod yn ffordd dda o ganfod y bobl gywir. Cytunodd aelodau y byddai hyn yn ddull da i'w ddefnyddio.

Gofynnodd y Cadeirydd os gellid anfon cofnodion y Bwrdd at aelodau'r Fforwm. Dywedodd Shane y bydd y cofnodion yn cael eu dodi ar wefan y Gymdeithas yn y dyfodol agos. Ni wnaethpwyd hynny hyd yma oherwydd bod angen eu golygu i adael y materion cyfrinachol allan.

Credai Sue y gallai erthygl fer yn y cylchlythyr dan deitl "diwrnod ym mywyd Aelod Bwrdd" ysgogi peth diddordeb. Credai Nick y byddai hyn yn syniad da ac awgrymodd y gallai'r erthygl gael ei hysgrifennu gan un o'r tenantiaid sy'n Aelodau Bwrdd.

9. Charles Brotherton (Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol) –

a) Diweddaru Polisi ar Dwyll

Daeth y Ddeddf Llwgrwobrwyo i rym ym mis Gorffennaf eleni. Mae'n drosedd i unigolyn neu sefydliad masnachol dderbyn llwgrwobr. Byddai Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru yn gyfrifol pe byddent yn methu atal gweithredoedd o lwgrwobrwyo gan staff felly cafodd yr holl staff ac aelodau'r bwrdd eu hysbysu am y Ddedf Llwgrwobrwyho.
Esboniodd Charles fod llwgrwobr yn unrhyw rodd a roddwyd gyda'r diben o ddylanwadu ar y sawl sy'n ei derbyn. Mae hyn yn golygu nad yw'n rhaid iddi fod yn llwgrwobr ariannol. Gallai fod yn addewid, eiddo, mantais ac ati.
Nid bwriad y Ddeddf yw atal busnes arferol er enghraifft rhoi cinio i aelodau'r Fforwm pan fynychant gyfarfod ond rhoddodd Charles enghraifft o lwgrwobr bosibl ... er enghraifft pe bai cydlynydd tai i ychwanegu pwyntiau i gais am gael rhodd, byddai hyn yn cyfrif fel llwgrwobrwyo.
Mae'r Bwrdd Rheoli yn awr wedi newid Polisi Twyll y Gymdeithas i gynnwys cylch gorchwyl newydd y Ddeddf.

b) Diweddaru Tâl Gwasanaeth

Dechreuodd Charles drwy ymddiheuro am y sefyllfa bresennol ynghylch taliadau gwasanaeth.

Esboniodd y cafodd taliadau gwasanaeth eu hadolygu 12 mis yn ôl. Cyn hynny, dim ond i'r rhai a ofynnai am gael eu gweld yr anfonid dadansoddiadau tâl gwasanaeth. Golygai hyn mai dim ond rhwng 20 a 30 y flwyddyn yr oedd y Gymdeithas yn eu hanfon ond erbyn hyn caiff datganiadau tâl gwasanaeth eu hanfon at bawb. Nid oedd y Gymdeithas wedi llawn sylweddoli maint y newid.

Er mwyn galluogi'r Gymdeithas i wneud y newid, prynwyd modiwl cyfrifiadur newydd gan IBS i ddelio gyda'r newidiadau gwasanaeth a phenodwyd aelod o staff i'w gweinyddu.

Yn anffodus ni chlustnodwyd digon o adnoddau ar gyfer gweithredu'r modiwl newydd ac felly bu gohiriad hyd 2010. Er y crëwyd swydd newydd ar gyfer gweinyddu taliadau gwasanaeth, cafodd yr unigolion wedyn ddyletswyddau eraill ac ni roddwyd digon o flaenoriaeth i daliadau gwasanaeth.

Ceisiodd y Gymdeithas anfon dadansoddiadau taliadau gwasanaeth ym mis Mehefin fodd bynnag cafwyd rhai problemau.

- Ni ddyrannwyd rhai costau i'r cynlluniau cywir.
- Ni chafodd disgrifiadau taliadau bob amser eu rhoi ar gyfer y symiau cywir.
- Mae angen mwy o fanylion mewn rhai disgrifiadau.
- Er y'u gelwir yn 'gyfriflenni', nid ydynt yn ofyniad am daliad, ond dim ond yn ddadansoddiad o daliadau.

Yna esboniodd Charles rai o'r camau gweithredu a gymerir i liniaru'r problemau hyn.

- Mae'r Gymdeithas wedi rhoi'r gorau i roi cyfriflenni os na wneir cais amdanynt.
- Bu IBS i mewn 3 gwaith i helpu gyda'r modiwl newydd.
- Cynhaliwyd gwiriad cynhwysfawr o godau.
- Mae angen i'r Gymdeithas ymweld â rhai cynlluniau adeiladu mwy cymhleth i wirio fod y gwasanaethau a'r costau yn cyfateb.
- Cafodd y tîm cyllid ei ailstrwythuro. Erbyn hyn mae aelod o staff penodol ar Daliadau Gwasanaeth - Jonathan Davies.
- Sicrhau y cafodd y tîm cyllid ei hyfforddi'n iawn.

Yna dangosodd Charles y dadansoddiadau gwedd newydd ar gyfer taliadau gwasanaeth. Byddant yn dangos swm y flwyddyn flaenorol yn ogystal â swm y flwyddyn bresennol er mwyn hwyluso cymharu. Ni fyddant bellach yn dangos sero yn ymyl meysydd lle na chodir tâl.

Gofynnodd y Cadeirydd am beth oedd y disgrifiadau "Teithio" a "phensiwn". Esboniodd Charles fod hyn yn cyfeirio at y garddwr. Gofynnodd Debbie pam fod hwn yn dâl gwasanaeth a dim ond yn rhan o'i gyflogaeth. Dywedodd Charles ei fod yn dod dan gost cael y gwasanaeth hwnnw a chyflogi'r garddwr hwnnw i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw. Gofynnodd y Cadeirydd os gallai'r gwasanaethau gael eu grwpio gyda'i gilydd fel eu bod yn gwneud mwy o synnwyr a defnyddio'r enghraifft o grwpio holl wasanaethau yn ymwneud â garddio gyda'i gilydd. Ychwanegodd Nick y byddai'n gwneud mwy o synnwyr i grwpio'r holl wasanaethau cysylltiedig gyda'i gilydd a'u dangos fel un tâl. Dywedodd Charles y byddai hyn yn llawer mwy cymhleth nag mae'n swnio oherwydd meddalwedd. Mae angen i'r Gymdeithas ddangos pob tâl. Byddai'n rhwyddach ei adael neu fel arall byddai angen gweithredu rhaglen newydd gyflawn i adio pethau at ei gilydd.

Holodd Jane os oedd angen gadael y codau cost ar y dalenni dadansoddi gan nad oeddent yn golygu dim i denantiaid. Dywedodd Charles fod hyn yn ddefnyddiol yn fewnol ond nad oedd yn rhaid ei ddangos ar y dalenni dadansoddiad.

Gofynnodd Sue pa systemau yr oedd landlordiaid eraill yn eu defnyddio. Dywedodd Charles ei fod yn amrywio ond bod Cymdeithas Tai Knightstone ac Ymddiriedolaeth Tai Wrekin yn defnyddio'r un modiwl â ni, er eu bod yn gwneud hynny mewn ffordd

ychydig yn wahanol. Byddai'n dda i Gymdeithas Tai Canolbarth Cymru siarad gyda hwy amdano.

Gofynnodd y Cadeirydd am i lythyr tâl gwasanaeth gael ei anfon gyda'r cyfriflenni rhent.

10. Unrhyw fater arall

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid a fyddai'n syniad da i'r Gymdeithas gynnal cystadleuaeth arddio ar gyfer ei thenantiaid. Dywedodd Hannah y byddai'n ystyried hyn gyda golwg ar roi cyhoeddusrwydd iddi drwy'r cylchlythyr chwarterol. Gofynnodd hefyd os y gellid cynnal cystadleuaeth ffotograffau ar gyfer y calendr nesaf.

Esboniodd Jane ei bod yn rhy hwyr cynnal cystadleuaeth eleni ond y dylai fod erthygl yn y cylchlythyr i ddweud wrth denantiaid am y bwriad i gynnal cystadleuaeth yn barod ar gyfer calendr 2013. Soniodd am gynlluniau'r Gymdeithas am galendr 2012 - calendrau magnetig bach gyda logo'r Gymdeithas y gall tenantiaid eu cadw ar eu rhewgelloedd.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn anhapus iddo dderbyn cyfanswm o 4 adroddiad CCB drwy'r post gan y Gymdeithas. Gofynnodd am well cydlynu ynghylch y post a anfonir gan y Gymdeithas er mwyn arbed arian. Dywedodd aelodau eraill hefyd eu bod wedi derbyn mwy nag un adroddiad CCB yn rhinwedd gwahanol swyddi. Dywedodd Hannah a Jane y byddent yn hysbysu staff am hyn ac yn rhoi ystyriaeth iddo ar gyfer postio yn y dyfodol.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 9 Rhagfyr yn Nhŷ Canol. Eir ag aelodau'r Fforwm sy'n bresennol allan am ginio Nadolig. Bydd y cyfarfod yn dechrau'n gynnar i roi mwy o amser i'r tenantiaid yn unig a'r cinio Nadolig.